# Eich Canllaw i'r... CV

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Yn aml iawn, y CV yw'r peth cyntaf y bydd cyflogwr yn ei ddarllen amdanoch, felly gwnewch yn siwr ei fod yn denu eu sylw a sicrhau eu bod am gwrdd â chi. Defnyddiwch y gofod i amlygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau a'ch profiadau allweddol.

**Awgrym Allweddol - Deall Gofynion y Cyflogwr a Theilwra eich CV i'r swydd** Bydd gan gyflogwyr "restr siopa" o sgiliau, gwybodaeth, profiad a nodweddion ac fe fyddan nhw'n llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar sail y rhestr yma. Mae angen i chi ddeall yr hyn maen nhw'n chwilio amdano a theilwra eich CV i gyfateb â'u gofynion. **Gwnewch eich gwaith cartref ar y cyflogwr a'r rôl gan amlygu eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad perthnasol a'ch nodweddion personol. Rhowch dystiolaeth i ddangos sut / ble y gwnaethoch eu meithrin.**

## Fformat ac Arddull

Gall yr 'arddull' byddwch yn ei ddefnyddio ddibynnu ar y math o swydd neu sector rydych yn gwneud cais ar ei chyfer, ond yn gyffredinol, dylech ddilyn y canlynol:

**Cyflwyniad**

- Dylech fformatio eich CV a'ch llythyr yn yr un arddull - dylent edrych fel pecyn.
- Defnyddiwch ffont proffesiynol clir fel Arial neu Calibri a defnyddio maint darllenadwy (pwynt 10, 11 neu 12).

**Cynllun**

- Dylai'ch CV edrych yn glir ac yn broffesiynol a'i gwneud yn hawdd i gyflogwyr ddod o hyd i'r wybodaeth maen nhw'n chwilio amdani.
- Cadwch eich brawddegau yn gryno ac yn effeithiol gan osgoi paragraffau hir.
- Defnyddiwch benawdau ac is-benawdau i roi bylchau rhwng adrannau. Defnyddiwch brint trwm neu italig i bwysleisio pethau pwysig - ond ddim pob peth!

**Hyd**

- Dylai'ch CV chi ddim bod yn hirach na 2 ochr o A4.

## Ychydig o gyngor

**Ymchwiliwch i'r Cyflogwr a'r Rôl dan sylw**

- Cyn i chi ddechrau ysgrifennu, gwnewch yn siwr eich bod yn deall yr hyn y mae'r cyflogwr yn chwilio amdano.

**Byddwch yn Glir ac yn Gryno**

- Dylech ysgrifennu eich CV mewn iaith gadarnhaol a chryno.
- Peidiwch â defnyddio iaith neges destun na thafodiaith ar eich CV.

**Sillafu a Gramadeg**

- Dyma'r enghraifft gyntaf o'ch gwaith y bydd cyflogwr yn ei gweld, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn creu argraff dda.
- Dylech wirio eich sillafu a'ch gramadeg bob amser cyn i chi anfon eich CV - peidiwch ag ymddiried mewn meddalwedd gwirio gramadeg.

**Rhowch Dystiolaeth o'ch Sgiliau a'ch Profiad**

- Dylech gefnogi unrhyw sgiliau penodol drwy roi enghreifftiau o sut a phryd rydych wedi'u datblygu / defnyddio nhw.
- Gall tystiolaeth ddod o swyddi rhan amser, gwirfoddoli a gweithgareddau allgyrsiol, yn ogystal â lleoliadau ffurfiol a phrofiad gwaith.
- Gwnewch yn siwr nad ydych chi wedi anghofio cyfeirio at unrhyw un o ofynion y cyflogwr.

**Peidiwch â dweud celwydd ar eich CV**

- Gall fod yn demtasiwn i orddweud ychydig neu ddweud ambell gelwydd golau ar eich CV, ond peidiwch. Mae'n debygol iawn y cewch eich dal.

**E-bostio Ceisiadau**

- Os ydych yn anfon eich CV drwy e-bost dylech atodi eich llythyr hefyd, neu roi fersiwn fyrrach o'r llythyr fel rhan o'ch e-bost.

## Cymorth a gwybodaeth ychwanegol

**Teclyn Creu CV**

- Ymhlith ein Teclynnau Cyflogadwyedd yn Unilife Connect mae Teclyn Creu CV i'ch helpu i ddrafftio CV.

**CVs Enghreifftiol**

- Ewch i weld CVs enghreifftiol ar y wefan gyrfaoedd er mwyn cael ambell i syniad.

**Gofyn am Gyngor gan Gynghorydd Gyrfaoedd**

- Gall cynghorydd gyrfaoedd wirio eich ceisiadau cyn i chi eu hanfon - naill ai drwy apwyntiad neu drwy ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein "Gofyn Cwestiwn". Mae manylion ar ein gwefan www.southwales.ac.uk/careers

**Jane Tan**

1 Heol Thomas
Thomas Villa
TMX X11

Ffôn: 0111 111 111
Symudol: 077000 000 000
E-bost:jtan@esiampl.com

***Cenedligrwydd:*** Tsieineaidd ***Statws Trwydded Gwaith:*** Haen 4
***Ieithoedd:*** Rhugl mewn Saesneg, Cantoneg a Mandarin

**Proffil proffesiynol**
Rwy'n fyfyriwr graddedig brwd gyda diddordeb penodol mewn dylunio gwefannau ac amlgyfryngau. Rwyf wedi cael profiad rheoli prosiect ar ôl arwain a rheoli prosiect llwyddiannus yn y flwyddyn olaf oedd yn seiliedig ar brofiad 'byw' gyda chyflogwr, sef cwmni cyfathrebu bach. Bellach, rwy'n chwilio am swydd neu leoliad gwaith 'lefel mynediad' i raddedigion, lle gallaf ddechrau fy ngyrfa TG mewn cwmni amlgyfrwng sy'n cynnwys dylunio/datblygu gwefannau.

**Sgiliau Allweddol**
• Cymwys mewn HTML a XHTML, CSS, Javascript, a Flash
•Profiad o Dreamweaver a Visual Studio
• Profiad o ddefnyddio pecynnau dylunio graffeg fel Fireworks a Photoshop
• Gwybodaeth am systemau rheoli cynnwys gwefannau
• Defnyddio pob pecyn meddalwedd Microsoft yn fedrus ac yn rheolaidd
• Sgiliau rheoli prosiect da - wedi rheoli cylch bywyd llawn prosiect 'byw' o'i ddyfeisio i'w gwblhau, gan ddatrys problemau, cyflawni'r prosiect ar amser ac oddi mewn i'r gyllideb
• Agwedd broffesiynol, arloesol a chymhellgar tuag at waith

**Aelodaeth Broffesiynol**
Aelodaeth Myfyriwr o Gymdeithas Cyfrifiadura Prydain

**Addysg**
**Cyfrifiadureg Amlgyfrwng BSc** (2:1) Prifysgol Esiampl 2013-2016
*Roedd cynnwys y cwrs yn cynnwys:*

Systemau cyfrifiadurol a thechnoleg rhywdweithiau — Peirianneg gwybodaeth
Datblygu cymwysiadau rhyngrwyd — Datblygu cyfryngau digidol
Pensaernïaeth rhwydweithiau a systemau gweithredu — Cymwysiadau Rhyngrwyd
Amlgyfryngau rhyngweithiol a'r we sy'n datblygu — Systemau E-fasnachu

*Prosiect Trydedd Flwyddyn:*
***'Datblygu ac ailddylunio gwefan gorfforaethol gan osod nodweddion newydd ac ymarferol'.*** Roedd y prosiect 'byw' hwn yn cynnwys lleoliad gwaith gydag asiantaeth cyfathrebu leol i ailddatblygu a gwella eu gwefan.

**Manylion Cyswllt / Personol**
Defnyddiwch eich enw fel pennawd - does dim angen ysgrifennu "CV" ar y top.
Defnyddiwch eich cyfeiriad yn ystod y tymor, neu unrhyw gyfeiriad arall yn y Deyrnas Gyfunol lle bydd modd cysylltu â chi.
Defnyddiwch gyfeiriad e-bost proffesiynol synhwyrol.

**Proffil Personol**
Newidiwch eich datganiad personol i gyfateb â'r swydd neu'r lleoliad rydych yn gwneud cais amdano. Meddyliwch am eich prif gryfderau gan roi crynodeb fer o'ch sgiliau a'ch profiad perthnasol. Gallwch hefyd nodi eich nod neu ffocws o ran gyrfa (os yw'n gysylltiedig â'r hyn rydych yn gwneud cais amdano).

**Sgiliau**
Ceisiwch gyfateb eich sgiliau i'r swydd/lleoliad. Er mwyn gwneud hyn rhaid i chi fod yn glir am y rôl rydych yn gwneud cais amdani a gofynion y cyflogwr. Rhowch dystiolaeth o'r sgiliau hyn yng nghorff y CV.

**Aelodaeth Broffesiynol**
Nodwch aelodaeth cyrff proffesiynol. Os yw'ch cwrs wedi'i achredu gan gorff proffesiynol, nodwch hyn hefyd.

**Addysg**
Dechreuwch gyda manylion diweddaraf eich addysg. Rhowch ddosbarth y gradd, neu'r canlyniad disgwyliedig. Fel arall, nodwch ganlyniadau modiwlau.
Rhowch fanylion prif brosiectau gan roi teitl a chrynodeb fer - nodwch fethodoleg/proses a chanlyniadau.
Rhowch fanylion cymwysterau blaenorol gan gynnwys y cymhwyster cyfatebol yn y Deyrnas Gyfunol os ydych yn fyfyriwr tramor.

**Bagloriaeth Ryngwladol** 64% Ysgol Ryngwladol Shanghai 2011-2013
(cyfateb i Safon Uwch)

**Profiad Gwaith TG**
**Datblygwr Gwefan** Cwmni Cyfathrebu Gorffennaf-Awst 2015
(Prosiect Trydedd Flwyddyn/Lleoliad Gwaith)
Tasgau yn cynnwys:
• Ailddylunio gwefan bresennol y cwmni gan wella'r diwyg gweledol, y graffeg a'r llywio.
• Datblygu system rheoli cynnwys i gynyddu ymarferoldeb y wefan.
• Ar ôl gwella'r optimeiddio chwilotwyr cafwyd cynnydd o 20% yn yr ymweliadau â'r wefan a chynnydd dilynol o 15% mewn busnes dros gyfnod o 6 mis.
• Mynychu cyfarfodydd briffio gyda'r uwch dîm rheoli, cyflwyno gwybodaeth a diweddariadau ar y prosiect yn hyderus.
Gwefan y cwmni **www.cwmnicyfathrebu.com**

**Swyddi Rhan Amser**
**Cynorthwyydd Gwasanaethau Cwsmeriaid** JK Electronics Medi 2015-Ionawr 2016
• Cynghori cwsmeriaid ar amrywiaeth o nwyddau trydanol ac electronig, cynnig gwybodaeth dechnegol berthnasol i'w hanghenion.
• Aelod tîm hyblyg a dibynadwy â'r gallu i gyrraedd targedau misol.

**Gwaith Gwirfoddol**
**Gwirfoddolwr** Oxfam Tachwedd 2013- Chwefror 2014
• Gweithio fel cynorthwyydd siop mewn Siop Oxfam leol am un prynhawn yr wythnos. Roedd
hyn yn golygu didoli a pharatoi eitemau dillad, arddangosfa yn y ffenest a gwasanaethau cwsmeriaid. Fe wnes i fwynhau'r profiad hwn yn fawr ac roeddwn i'n teimlo fy mod wedi gwneud cyfraniad positif i'r gymuned leol. Roedd hefyd wedi fy helpu i setlo yn yr ardal a datblygu fy sgiliau siarad Saesneg.

**Cyflawniadau**
'Cynrychiolydd Cwrs BSc Cyfrifiaduraeth Amlgyfrwng 2014-2015' - yn cynrychioli carfan o 40 o fyfyrwyr yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd gydag uwch academyddion.
Gwobr Myfyriwr Amlgyfryngau y Flwyddyn 2014 - derbyn gwobr y gyfadran am y perfformiad academaidd gorau ym mlwyddyn gyntaf y BSc.

**Diddordebau**
Aelod o'r clwb athletau lleol, yn arbenigo yn yr 800 metr ar y trac.
Cystadlu'n rheolaidd yng 'Ngemau'r Prifysgolion' - pencampwriaeth athletaidd ledled Prydain.

**Profiad Gwaith / Cyflogaeth**
Nodwch fanylion eich holl brofiad gwaith, gan gynnwys swyddi rhan amser a gwirfoddoli.
Dechreuwch gyda'r gwaith mwyaf diweddar a'r dyddiadau roeddech chi'n gweithio yno.
Rhowch fanylion eich dyletswyddau, eich cyflawniadau a'r sgiliau y gwnaethoch eu datblygu pan oeddech chi'n gweithio yno.
Canolbwyntiwch ar y sgiliau mae'r cyflogwr yn edrych amdanyn nhw.
Hyd yn oed os nad yw'ch swyddi rhan amser yn uniongyrchol berthnasol, gallwch amlygu'r sgiliau trosglwyddadwy perthnasol y gwnaethoch eu datblygu.

**Diddordebau**
Cadwch yr adran hon yn fyr gan amlygu'r sgiliau a'r nodweddion personol rydych wedi'u datblygu oherwydd eich diddordebau.
Dylech roi mwy na rhestr o'ch diddordebau - nodwch i ba lefel rydych yn ymwneud â'r gweithgareddau - ac osgoi ysgrifennu am eich bywyd cymdeithasol.

**Canolwyr**
Fel arfer mae angen dau ganolwr, yn ddelfrydol cyflogwyr neu ddarlithwyr. Gwnewch yn siwr eich bod yn gofyn am eu caniatâd ymlaen llaw. Neu gallwch nodi 'ar gais'.
Cofiwch roi copi o'ch CV i'ch canolwyr.